# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com

£1

**Mai 2026 – Cyfrol 11 – Rhifyn 8**


## Haelioni




Mae Dei ac Elen Owen yn hynod ddiolchgar i bawb a ddaeth i'r bore coffi. Diolch yn arbennig i'r gwirfoddolwyr am eu gwaith caled, ac am y cacennau a'r gwobrau raffl a gyfrannwyd. Codwyd y swm anhygoel o £1200 ar gyfer Grŵp Cymorth Clefyd Parkinson, De Sir Ddinbych.



Dymuna Iona a Gareth Pierce ddiolch yn ddiffuant i bawb wnaeth eu cefnogi yn ystod dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar, pan llwyddwyd i godi £1350 tuag at Glefyd Parkinson.



# Newyddion y pentre

***Cydymdeimlwn â*** Bethan Jones a'r teulu ar golli ei chwaer, Carys Roberts, o Ddinbych; hefyd â Jackie a Phil, Argoed – Jackie wedi colli ei thad, Bernard, oedd yn byw yn Llandyrnog am flynyddoedd, ond bellach yn byw yn Gellifor.

***Llongyfarchiadau*** calonnog i Daf a Tash Roberts, Gwynfryn ar enedigaeth merch fach, Willow. Hefyd i Tom a Penny Hughes, y Ceffyl Gwyn, ar enedigaeth Paddy, brawd bach i Thomas, Rhys, Lydia, Dylan, Darcie, Scarlett, Michael, Eddie a Holly.

***Pob dymuniad da*** i Elwyn, Ger y Llan ar ei ben blwydd yn 95 oed ar Ebrill 30.

***Dymuniadau gorau*** am wellhad buan i Peter, Maes Llan ar ôl cyfnodau yn Ysbytai Aberystwyth ac Abertawe.

## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.
Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

**Diolch yn fawr** i'r ddynes a gododd yr holl blastig du ar hyd y lôn rhwng Lletty a Bryn Egwallt.

***Priodas hapus:*** Hoffai Nigel a Maria longyfarch eu merch, Paige, a chroesawu Ruth i'r teulu yn dilyn eu priodas 14 Chwefror. Cynhaliwyd y seremoni yn Thornton Manor, Cilgwri, gyda ffrindiau agos a theulu. Yn dilyn y gwasanaeth, mwynhaodd y gwesteion y wledd briodas yn y gwesty. Dywedodd Nigel a Maria ei fod yn ddiwrnod hapus dros ben, ac maen nhw'n dymuno pob hapusrwydd a hir oes i Paige a Ruth (Mrs a Mrs Tynan) yn ei bywyd priodasol. *(Ein dymuniadau gorau iddyn nhw hefyd – Gol.)*



# Pêl-droed yr haf

***Gemau mis Mai***

Nos Fawrth, 5$^{ed}$, 7pm Nantglyn oddi cartref

Nos Iau 7$^{fed}$, 7pm Rhewl gartref

Nos Lun 11$^{eg}$, 7.15pm Henllan gartref

Nos Iau, 14$^{eg}$ 7.15pm Trefnant gartref

Nos Lun 18$^{fed}$, 7.15 Llanrhaeadr oddi cartref

Nos Iau 21$^{ain}$, 7.15, Llanfair gartref

Nos Fawrth, 26$^{ain}$, 7.15pm, Clawddnewydd oddi cartref

Nos Iau, 28$^{ain}$, 7.15 Cefn oddi cartref

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun 4ydd | Grŵp gweu<br>Gild Trefoil | 10am<br>2pm |
| Maw 5ed | Grŵp Cyfeillgarwch | 7pm |
| Mer 6ed | Peintio a phaned<br>Cyfarfod pwyllgor y *Llais* | 12–3pm<br>7pm |
| Iau 7fed | Etholiad y senedd | 7am–10pm |
| Llun 11eg | Grŵp gweu | 10am |
| Mer 13fed | Undeb y Mamau | 2pm |
| Llun 18fed | Grŵp gweu | 10am |
| Maw 19eg | Cyngor Cymuned | 7pm |
| Mer 20fed | Tuesday Club | 2pm |
| Llun 25ain | Grŵp gweu | 10am |
| Mer 27ain | Peintio a phaned | 12–3pm |

# Eglwys St Tyrnog

Sylwch fod amseroedd a lleoliad y gwasanaethau wedi newid

| | | |
|---|---|---|
| Sul 3ydd | Cymun bendigaid | **9.30am** |
| Sul 10fed | Cymun bendigaid | **9.30am** |
| | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre | 3.30pm |
| Sul 17eg | Cymun bendigaid | **9.30am** |
| Sul 24ain | Boreol weddi | **9.30am** |
| Sul 31ain | Gwasanaeth yr Ardal Genhadu: Tremeirchion | 10.30am |

# Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 03/05 | 11.00 | Mr Bob Morris |
| 10/05 | 10.00 | Sul Cymorth Cristnogol |
| 17/05 | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| 24/05 | 10.00 | Sul y Fro – Llanrhaeadr |
| 31/05 | 11.00 | Miss Llinos Mary Jones |

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sad 4ydd | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Mer 6ed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 9fed | Bore coffi – Campfire Cymru | 10–11.30am |
| Sul 10fed | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 11eg | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 12fed | Clwb Garddio | 7–9pm |
| Mer 13eg | Pilates | 7.15–8.15pm |
| | Pwyllgor y Sioe Flodau | 7–8pm |
| Sad 16eg | Bore coffi – Clwb Garddio | 10–11.30am |
| Llun 18fed | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 20fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Maw 26ain | Y Clwb Seryddiaeth | 7–9pm |
| Sad 30ain | Bore coffi – Beiciau Gwaed Cymru | 10–11.30am |

Mae *Campfire Cymru* yn cael ei gynnal yn yr awyr agored er mwyn i blant ag awtistiaeth a'u teuluoedd ddod ynghyd i gefnogi ei gilydd. Maen nhw angen cymorth ariannol i allu parhau hyd at fis Medi.

Yn y bore coffi fore Sadwrn, 9 Mai, bydd cynrychiolydd yn bresennol yno i egluro ac ateb cwestiynau am eu gwaith gwerthfawr.

I logi'r **Ystafelloedd Coco** cysylltwch â Carolyn Langford-Jones: 01824 790122 neu ar e-bost: cocoaroomsbookings@gmail.com
I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

# Gwasanaeth Dydd Iau Cablyd

Dychmygwch fy syndod yn gynnar fis Chwefror, pan ddaeth llythyr wedi'i farcio '*Palas Buckingham*' drwy'r drws! Roedd hi'n fwy o syndod pan ddarllenais i'r cynnwys – roedd yn fy hysbysu fy mod wedi cael fy enwebu i dderbyn yr Arian Cablyd (*Maundy*) gan y Brenin yn y gwasanaeth Dydd Iau Cablyd blynyddol fyddai eleni'n cael ei gynnal yn y Gadeirlan, Llanelwy. Dim ond yr eildro erioed i'r gwasanaeth gael ei gynnal yng Nghymru, a'r tro cyntaf yng Ngogledd Cymru, felly roedd yn achlysur arbennig iawn.

Bob blwyddyn, mae'r brenin neu'r frenhines yn rhoi Arian Cablyd i bobl er mwyn cydnabod eu gwasanaeth i'r eglwys a'r gymuned, ac mae'r nifer sy'n derbyn hwn yr un fath ag oed y brenin neu'r frenhines. Felly eleni roedd 77 o fenywod a 77 o ddynion yn cael y fraint.

Mae dosbarthu elusennau a golchi traed ar Ddydd Iau Cablyd yn draddodiadau hynafol iawn, a gellir olrhain y Cablyd Brenhinol yn ôl i'r 13eg ganrif. Mae pob un sy'n ei dderbyn yn cael dau bwrs, un gwyn ac un coch. Gwneir y pyrsiau o groen ceirw Parc Mawr Windsor a Balmoral.



Eleni, mae'r pwrs coch yn cynnwys darn £5 yn coffáu 100 mlynedd ers genedigaeth y Frenhines Elizabeth II a darn 50c yn coffáu 50 mlynedd ers sefydlu Ymddiriedolaeth y Brenin (*King's Trust*). Mae'r pwrs gwyn yn cynnwys Arian Cablyd, darnau arian unigryw wedi'u bathu'n arbennig, ar ffurf darnau un, dwy, tair a phedair ceiniog, sy'n cyfateb i 77 o geiniogau.

O'r cychwyn cyntaf, roedd yr holl ohebiaeth yn gyfeillgar ac yn tawelu'r nerfau! Y peth pwysicaf oedd eich bod chi, y derbynnydd, yn teimlo'n gyfforddus ac yn mwynhau'r diwrnod – roedd yr un naws gynnes yn bod pan gyrhaeddon ni'r Gadeirlan. Roedd yn rhaid i ni fynd drwy sawl gwiriad diogelwch cyn cael dod i mewn i'r Gadeirlan, ond er eu bod yn wyliadwrus, roedd pawb yn hynod o gyfeillgar. Roeddem i gyrraedd tua 9 o'r gloch a'r drysau'n cau am 10.15, er nad oedd y gwasanaeth yn dechrau tan 11. Roeddwn yn meddwl y byddai'n teimlo'n amser hir, ond roedd rhywbeth yn digwydd bob munud – Gwŷr y Gard yn ymgynnull a phobl yn mynd 'nôl a 'mlaen o'n cwmpas. Cyn y gwasanaeth, eglurodd yr Arglwydd Uchel Elusennwr beth fyddai'n digwydd. Er ei deitl mawreddog, roedd yn ddyn di-lol, ac fe wnaeth i bawb chwerthin. Roedd o'n ein cynghori ni, pan fyddai'r Brenin yn cyflwyno'r arian, mai digon oedd dweud diolch; doedd dim angen rhoi unrhyw beth yn ôl iddo. Yn ôl y sôn, mi roddodd un ddynes jar o farmalêd gludiog i'r Frenhines un flwyddyn !



Daeth y Brenin o gwmpas a chyflwyno'r pyrsiau i bob un o'r derbynwyr, a dweud ychydig eiriau o ddiolch i bawb. Roedd yr awyrgylch yn hynod o hamddenol ac yn bersonol iawn, a'r Brenin yn gwenu ac yn chwerthin yn aml – roedd yn ymddangos ei fod yn wirioneddol fwynhau'r profiad.

## Dydd Iau Cablyd: parhad

Roedd y gwasanaeth yn hyfryd ac roedd y gerddoriaeth yn arbennig o swynol – roedd hi mor braf gweld rhai o gerddorion ifanc lleol yn perfformio cyn, ac ar ôl y gwasanaeth. Roedd y Brenin wedi gofyn i gymaint â phosibl o'r gerddoriaeth fod gan gyfansoddwyr Cymreig, ac roedd un o'r darlleniadau ac un emyn yn Gymraeg. Roedd y llyfryn gwasanaeth cyfan yn ddwyieithog ac felly mi ddysgais i ychydig o eiriau newydd nad oeddwn wedi dod ar eu traws o'r blaen! Er enghraifft: *Gwastrawd* ydi *Equerry*, a *Cheidwad y Closed* ydi *Keeper of the Closet*! Tybed beth yn union yw ei waith!

Cyn i ni sylweddoli, roedd y gwasanaeth ar ben, ac unwaith yr oedd yr holl orymdeithiau wedi gadael y gadeirlan, roedd hi'n amser mynd adref — ond nid cyn imi roi cyfweliad byr iawn i BBC Cymru. Enwogrwydd o'r diwedd!

Roedd hi'n achlysur bendigedig ac yn hynod o arbennig i mi gael derbyn anrheg bersonol gan y Brenin, ond, y gwir anrhydedd oedd cael fy enwebu – mae'n atgof y byddaf yn ei drysori bob amser.

*Mary Steel*


**Prompt Travel**

**Taxi & Private Hire**

**4, 8 & 16-seat vehicles**
**24 hrs 7 days a week**

Incorporating Vale Private Hire

**01824 790485**
**07974 862027**

**Teithiau Prydlon**

**Tacsi a Hurio Preifat**


## Y Gymdeithas Seryddiaeth

Mwynhaodd bawb sgwrs addysgiadol gan Gareth ar y datblygiadau diweddaraf mewn astroffotograffiaeth. Dangosodd Gareth ei delesgop atblygu 120mm, y *Celestron Omni 130XLT*. Mae'r camera hwn yn tynnu lluniau o awyr y nos ac yn cymharu'r patrymau â map sêr, er mwyn medru canoli'r alaeth yn y sylladur.

Bu cryn drafodaeth hefyd am daith ofod Artemis II. Mae Artemis II yn daith brawf er mwyn medru anfon teithiau i'r gofod gan longau gofod Artemis yn y dyfodol. Y gobaith ydi anfon pobl i wyneb y Lleuad yn 2028 am y tro cyntaf ers Apollo 17. Ei phrif nod fydd dangos y systemau fydd eu hangen ar gyfer glanio pobl ar y Lleuad– bydd yn cynnwys y roced *System Lansio Gofod* (*SLS*) ac Orion, capsiwl y criw.

Yn hwyrach nos Fercher/bore Iau, mwynhaodd pawb wylio'r lansiad syfrdanol o Ganolfan Gofod Kennedy lle'r anfonwyd pedwar astronot ar daith hanesyddol 10 diwrnod o amgylch y Lleuad.

Ers ein cyfarfod, mae criw Artemis II wedi glanio'n ddiogel yn y Cefnfor Tawel ar 10 Ebrill.

Bydd awyr nos Mai yn y DU yn dangos penllanw *Cawod Feteor Eta Aquarid* (dechrau Mai), y 'Lleuad Flodau' (1–12 Mai), ac ymddangosiad disglair Gwener yn y gogledd-orllewin gyda'r nos. Ymhlith yr uchaf-bwyntiau eraill, fydd y Lleuad yn mynd heibio'r blaned Mawrth a phlaned Gwener tua 22 Mai, a'r 'Triongl Gwanwyn' fydd i'w weld tua'r De.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn Ystafell Isaf Neuadd y Pentref am 7pm nos Fawrth, 26 Mai. Mae llawer i edrych ymlaen ato yn awyr y nos, felly 'Daliwch i syllu fry uwchben'!

*(HW)*

# Hanes y Brodyr Bryan

Mae sut tybed y daeth teulu o Lanarmon i greu un o rwydweithiau busnes Cymreig mwyaf rhyngwladol yn yr 19eg a'r 20fed ganrif yn gwestiwn werth ei ateb. Fe ddaeth llawer o'r atebion o lyfr diddorol Siân Wyn Jones, *O Gamddwr i Gairo*, sydd yn crynhoi cefndir y Brodyr Davies Bryan o'u magwraeth ar aelwyd mor Gristnogol i ddatblygu busnes enfawr mewn gwlad Fwslemaidd – yr Aifft.

Rhaid datgelu ein cyswllt teuluol sydd braidd yn bell ond roeddynt yn gefndryd hen Nain Margaret. Roedd Mam Margaret – Elsie Jones, Pant y Gynnau, Bryn Saith Marchog, yn cofio cyfarfod â'r brawd ieuengaf, sef Joseph, pan oedd hi yn ifanc iawn.

Felly pwy oedd y brodyr Bryan? Roedd John (1856–1888), Robert (1858–1920), Edward (1861–1929) a Joseph (1864–1935) yn feibion i'r Capten Edward Bryan a'i wraig Eleanor. Mwyngloddiwr oedd Edward, yn y Mynydd Du yn ardal Camddwr i ddechrau, cyn cael ei benodi'n Gapten ar y *Park Mine*, Minera. Yn wreiddiol o gymuned grefyddol iawn, tyfodd y Teulu Bryan o fewn diwylliant lle'r oedd ffydd yn sylfaen eu bywyd a theithiodd y gwerthoedd yma gyda nhw wrth iddynt ymestyn eu gorwelion ymhell o Lanarmon. Teimlai Edward ac Eleanor fod mwyngloddio yn llwybr at galedi, nid at ddyfodol llwyddiannus.

Felly, roedd prentisiaeth mewn siop ddillad yn cael ei weld fel gwaith sefydlog a chyfle i ddysgu masnachu, ac yn ifanc iawn roedd y brodyr yn gweithio mewn siopau dillad ym Mostyn, Penbedw a Lerpwl. Erbyn 1880 roedd yr hynaf, John wedi cynilo digon i ddechrau ei fusnes ei hun yn 12 Stryd y Bont, Caernarfon er bod ei iechyd yn fregus.

Yr adeg yma, roedd eu cefnder Samuel Evans mewn swydd gyfrifol iawn yn y gwasanaeth sifil yn yr Aifft. Ysgrifennodd lythyr at John a'i berswadio i dreulio gaeaf 1886–7 yn yr Aifft, fel llawer i Ewropeaid cyfoethog. (Gyda llaw, yn ei amser sbâr roedd Samuel yn delio mewn camelod ac felly wedi cyfarwyddo â'r Aifft yn fuan iawn!)

Er bod iechyd John yn dal i ddirywio, aeth ati geisio sefydlu siop fechan iawn mewn ystafell yng ngwesty'r New Hotel, Cairo.

Yn drist iawn, bu farw John yn Cairo yn 1888 ac yntau yn ddim ond yn 33 oed. Fo oedd sylfaenydd y busnes a ganddo fo roedd y weledigaeth. Ond wedi ei golli, bu Edward, Joseph a Robert yn rhan o'r cwmni, a bu'r busnes mor llwyddiannus nes yr agorwyd pedair siop arall – yn Alexandria, un yn Khartoum a'r llall yn Port Said.

Erbyn 1900au, roedd Joseph a'i deulu yn eu cartref, Hafod, yn Port Said, ac yn cyflogi nifer o forwynion. Yn ôl yr hanes, doedd un o ferched Joseph a Jane, sef Dilys, ddim yn dda rhyw ddiwrnod a rhoddwyd hi yn y pram yn yr ardd yn Alexandria. Dychrynodd Jane pan welodd fod pelican wedi glanio ar y pram a phen y babi yn ei big enfawr. Ond wnaeth profiad y Pelican ddim drwg i'r babi – bu Dilys fyw tan nes cyrraedd 97!



Erbyn 1909 roedd busnes y Brodyr Davies Bryan yn un o'r mwyaf yn yr Aifft ac aethant ati i adeiladu y *St David's Building* yng Nghanol Cairo – adeilad 6 llawr rhwng tair stryd, yr adeilad masnachol mwyaf yn y wlad adeg hynny. Erbyn 1914 roedd yr Aifft yn diriogaeth dan nawdd Prydain a daeth yr Aifft yn ganolfan filwrol. Roedd hyn yn agor drysau at gontractau proffidiol, gyda Lawrence o Arabia yn gwsmer da.

# Hanes y Brodyr Bryan: parhad

Er bod yr Aifft wedi dod yn annibynnol yn 1922, roedd y cwmni yn dal i ffynnu ond roedd y gwynt yn dechrau newid a llywodraeth yr Aifft yn dechrau hyrwyddo busnesau lleol. Prynodd cyfrifydd y busnes a'i redeg am sawl blwyddyn dan yr enw 'Davies Bryan'. Bu farw'r olaf o'r brodyr, Joseph, yn 1935. Ar hyd y blynyddoedd, bu haelioni'r brodyr yn ymestyn yn driw i Gymru a buont yn hael iawn tuag at ysgolion, capeli, a chymdeithasau Cymreig. Ond mae'n debyg mai'r enghraifft fwyaf trawiadol oedd pryniant 70 erw o dir Penglais ar gyfer Prifysgol Aberystwyth.

Trefnwyd ein taith i Gairo gan ein meibion Caerwyn ac Alun, ac yn ffodus iawn roeddent wedi dod o hyd i'r teulu Palesteinaidd a brynodd y busnes gan y cwmni tua 80 mlynedd nôl. Cawsom groeso enfawr gan Salim a'i deulu, oedd, wrth gwrs, eisiau gwybod am hanes y brodyr. Fe agorodd llygaid teulu Salim led y pen pan ddangoswyd llyfr Siân Wyn Jones, *O Gamddwr i Gairo*, iddynt. Roeddynt yn awyddus i wybod os oedd yn bosibl i gyfieithu'r llyfr i'r Arabeg!

Roedd ein hymweliad â *St David's Building* yn agoriad llygaid go iawn – sut ar y ddaear oedd y brodyr wedi gallu ariannu adeilad mor enfawr, ac adeiladau llai yn Alexandria, Port Said a Khartoum, wedi cyfnod mor fyr o fasnachu? Rhaid ei fod yn gyfuniad o amseru perffaith, masnachu craff ac mae'n siŵr oherwydd eu henw da, cysylltiadau da â banciau rhyngwladol.

Trefnodd Salim i ni gyfarfod â pherchnogion presennol y safle, teulu o Syria oedd yn falch iawn o roi'r bore i ni gael edmygu'r adeilad oedd wedi ei adfer yn allanol i'w hen ogoniant. Ar y llawr isaf roedd siopau o bob lliw a llun ac uwchben y drws mwyaf sydd yn dod o stryd Mohammed Farid mae'r geiriau *Y Gwir Yn Erbyn Y Byd* ac arwydd Gorsedd Y Beirdd yn ogystal â stamp y brodyr D B i'w weld yn glir. Cawsom fynd yn y lifft a adeiladwyd cyn y rhyfel byd cyntaf i'r pum llawr uwchben, a siomedigaeth fawr oedd gweld fod dim newid yn y fflatiau er y cyfnod yna.

Wrth gamu allan o'r hen lifft a throi ein cefn ar fonogram 'D B' roedd yn amlwg nad ymweliad â hen adeilad yn unig oedd hwn ond cyfarfod â darn byw o hanes y Brodyr Bryan wedi ei chadw mewn carreg a chof. Hefyd rhaid diolch i Salim am y croeso enfawr ac yn sicr mi fydd ein cyfeillgarwch yn parhau.

I ni, prif bwrpas ein taith oedd olrhain hanes adeilad Davies Bryan a gweld yr adeilad ei hun ar ei safle gwreiddiol. Ond wrth gwrs tra roeddem yno fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i brofi rhyfeddodau ehangach yr Aifft. Roedd sefyll o flaen y pyramidiau yn brofiad sy'n aros yn y cof – gweld y cerrig enfawr yn codi o'r anialwch, y siapiau perffaith yn erbyn yr awyr las, a'r teimlad dwfn o fod yn wynebu rhywbeth sydd wedi goroesi tua phedwar mileniwm o hanes dynol.




Wrth gerdded i mewn i'r Amgueddfa fawr, newydd ar gyrion Cairo, y syndod mwyaf oedd gweld enw 'YR AIFFT' yn ein cyfarch yn

# Y Brodyr Bryan: parhad

ein hiaith ein hunain mor bell oddi cartref. Braf gweld bod yr amgueddfa'n rhoi cydnabyddiaeth i ieithoedd o bob cwr o'r byd. Mae'n adeilad modern ac eang – dros chwedeg cae pêl droed – bron fel teml i hanes yr Aifft. Roedd yr adeilad yn olau iawn ac yn llawn o drysorau – dros gan mil o arddangosion dros gyfnod o saith mileniwm – yn cael eu harddangos mewn cadwyn hanesyddol soffistigedig. O blith y cyfan, yr eitem fwyaf trawiadol i ni oedd beddrod *Tutankhamun* ei hun – y gwaith aur manwl, y manylion cain, a'r ymdeimlad o sefyll o flaen rhywbeth sydd wedi bod yn guddiedig am filoedd o flynyddoedd. Roedd gweld arch garreg a'r arteffactau cysylltiedig yn brofiad sy'n gwneud i ni sylweddoli maint y diwylliant a'r crefftwaith fu'n sail i wareiddiad yr Aifft.

Mae Cairo yn ddinas eang a bywiog lle mae mawredd hanesyddol yn cyd-fyw â realiti cymdeithasol – dinas lle mae trysorau'r byd yn byw ochr yn ochr â thlodi bob dydd.

***Rod, Margaret a theulu Rhiwbebyll Isaf***






# Rysáit

**Cacen Cnau Ffrengig (heb ŵy, siwgwr, na menyn)**

***Cynhwysion***

170g (18–20) dêts
1¼ (300ml) cwpaned o laeth figan (soia, coconyt ayb) neu laeth arferol
1 (250ml) cwpaned o flawd gwenith cyflawn neu flawd plaen
½ (125ml) cwpaned o oel llysiau
1 llwy de soda pobi
½ llwy de powdwr codi
1 llwy fwrdd o gnau Ffrengig

***Dull***

Cynhesu'r llaeth ychydig, ychwanegu'r dêts (ar ôl tynnu'r cerrig), a'u mwydo am 4–5 awr yn y llaeth.
Rhostio'r cnau Ffrengig ar dop y stôf neu yn y popty nes eu bod yn sawrus. Peidiwch â'u llosgi. Eu gadael i oeri.
Ar ôl mwydo'r dêts, eu cymysgu nes yn bâst llyfn.
Ychwanegu'r oel a chymysgu.
Gogru'r blawd, soda pobi a'r powdwr codi.
Torri'r cnau yn fras, eu hychwanegu at y blawd sych a chymysgu.
Ychwanegu'r cymysgedd sych at yr un gwlyb, a chymysgu'n araf. (Yma, medrwch ychwanegu 4–5 llwy fwrdd o siwgwr os oes angen ei felysu).
Rhoi'r cymysgedd mewn tun pobi bara.
Pobi mewn popty wedi ei gynhesu'n barod i 180 °C am 35–40 munud neu nes bod sgiwer yn dod allan yn lân o ganol y gacen.
Mwynhewch! (Gellir rhewi'r gacen).

*Iestyn Jones Evans*

## Cyngor Sir Ddinbych



**Merfyn Parry**
Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446
*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*
*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Hanesion Hazel



Ryden ni ar drothwy'r haf, ac mae hi'n amser i blannu cnydau a throi'r gwartheg allan i bori. Mae ein bywyd gwyllt hefyd yn brysur iawn a'r gwenoliaid, y gwenoliaid duon a'r gog wedi cyrraedd, a blodau'r gog a'r adar sy'n nythu. Ydech chi wedi clywed y gog eto wrth Glyn Arthur?

I mi, arwydd nodweddiadol o'r gwanwyn ydi côr y bore bach; symffoni o ganu adar sy'n cyrraedd ei hanterth tua 30 munud cyn i'r haul godi. Rwy'n cael fy neffro gan Mr Deryn Du'n canu y tu allan i'r ffenest. Mae ei gân fel alaw felys a thawel, ac mae'n eistedd yn uchel ar y llawrwydden – mae'n swnio'n uwch yn aer tawel y bore bach. Mae'r newid i'w groesawu ar ôl sŵn gwyllt y gwyntoedd a gawson ni dros y gaeaf, pan oedden nhw'n dyrnu'r tŷ a siglo'r cwteri.

Gall y tywydd fod yn boeth a sych, ond hefyd yn oer a chawodlyd, ac ambell i noson rewllyd annisgwyl yn dod bob hyn a hyn. Fel arfer, mae tymheredd y dydd yn amrywio o 13 °C i 18 °C, a gall tymheredd y tŷ gwydr godi'n sydyn iawn — gallai unrhyw blanhigyn ifanc sychu neu gael ei losgi.

Mae gen i synwyryddion thermostat yn y tŷ gwydr sy'n anfon data i'r derbynnydd yn y gegin. Mae'n system ddefnyddiol iawn, a gyda'r fentiau ffenestr otomatig Bayliss, dwi'n hyderus bod y tŷ gwydr wedi'i awyru'n dda pan na fydda i o gwmpas i agor a chau'r ffenestri.

Mae hafau sychach yn dod yn fwy cyffredin, ac mae mis Mai yn amser da i drio casglu a storio dŵr glaw ar gyfer y misoedd sych sydd i ddod. Mae gan y tai gwydr system landeri, ond roedd peipiau'r landar oedd yn mynd lawr i'r gasgen ddŵr yn gollwng ac wedi mynd yn frau oherwydd effaith golau'r haul ar y plastig uPVC. Roedd hyn yn torri ei strwythur a'i ddiraddio gan y pelydrau uwch-fioled.

Mewn mannau, roedd tyllau yn y peipiau, a'r dŵr yn gollwng cyn cyrraedd y gasgen, gan achosi mwsogl i dyfu mewn man lle nad oeddwn i eisiau iddo fo dyfu. Felly, roedd hi'n amser trwsio, a chefais hyd i'r peipiau a'r cysylltwyr efo'r diamedr cywir, a'u newid.

Fe wnes i hefyd osod landeri a hen gasgen ddŵr tu ôl i'r cwt ieir. Mae casglu dŵr o doeau yn well i blanhigion yr ardd gan fod yn well ganddyn nhw ddŵr glaw na dŵr tap. Mae gan y casgenni ddefnydd arall yn y tŷ hefyd – maen nhw'n cyflenwi dŵr i fflysio'r toiled pan na fydd prif gyflenwad dŵr i'w gael neu pan fydd y pwysedd yn isel (llif isel yn ôl Dŵr Cymru, gan eu bod o hyd yn fy nghywiro pan fydda i'n cwyno!).

Mae cysylltu casgen ddŵr â pheipen yn ffordd effeithiol arall o arbed dŵr, a gall y systemau hyn gasglu dipyn go lew o ddŵr. Mae pecynnau trosi ar gael ar-lein, yn eich canolfan arddio leol neu mewn siop *DIY*, ac maen nhw'n hawdd i'w gosod.

Ond, bydd rhaid i chi eu lleoli'n ofalus – yn ddelfrydol ar arwyneb cadarn a gwastad. Gallan nhw fynd yn drwm iawn pan fyddan nhw'n llawn dŵr, a throi drosodd os nad ydyn nhw'n saff. Yn ddelfrydol, gosodwch nhw mewn lle cysgodol neu le go oer i atal twf bacteria.

Mi fedrwch chi gael caeadau, ond os ydech chi'n defnyddio hen gasgenni fel fi, dwi'n gosod rhwyd fân dros y top i atal bywyd gwyllt a bawiach rhag syrthio i mewn. Rwy'n hoffi cael fy rhai i wedi'u codi 'chydig, i mi gael llenwi'r can dyfrio yn hawdd, a dwi'n eu gwagio unwaith y flwyddyn, a'u glanhau nhw'n dda – yn barod ar gyfer yr haf sydd i ddod!

Hazel

# Dougal yr Alpaca



Helô, Dougal yw fy enw i, neu Doogie, fel mae rhai yn fy ngalw i. Dwi bron yn bump oed ac yn Alpaca Huacaya. Rydych chi wedi cael hanes fy ffrindiau Cedric, Samuel a Harvey eisoes.


Fi yw'r alpaca mwyaf addfwyn a hoffus ohonon ni'r pedwar, ac mae pawb yn dweud bod gen i wyneb del iawn, ac yn edrych yn ddiniwed iawn! Dwi hefyd yn llai o lawer na'r lleill. Dydy hyn ddim yn ddrwg i gyd – mae'n golygu fy mod i'n fwy sionc a phan dwi wedi cyffroi, dwi'n neidio fel oen bach! Ond pan mae'n rhaid torri ewinedd fy nhraed neu os oes angen pigiadau arna i, dwi bob amser yn chwyrnu'n uchel! Does neb o'r lleill yn chwyrnu! Dwi'n gwneud hyn i drio gwneud i fi edrych yn fygythiol ac yn gas. Ond dwi ddim yn llwyddo.

Dydw i ddim yn un da am fwyta'n gyflym. Dwi'n bwyta fy mwyd yn hynod o araf, ac os nad yw'r 'paca-rieni' yn gadw golwg arnon ni amser cinio, mae'r lleill yn gorffen eu bwyd cyn gynted â phosib ac wedyn yn ceisio dwyn bwyd oddi arna i! Mae hyn yn creu problemau gan fod fitaminau a mineralau yn y bwyd ac mae eisiau digon o hynny arna i i gadw'n iach.

Dwi hefyd yn eitha delicêt – dwi wedi cael ychydig o fân anafiadau a salwch sydd wedi golygu mynd at y milfeddyg. Mae fy 'mhaca-rieni' yn dechrau meddwl 'mod i'n reit hoff o Yncl Dyfrig y milfeddyg, sydd wedi bod ata i ambell waith erbyn hyn!

Er bod golwg fel angel bach prydferth arna i 99.9% o'r amser, roedd golwg eitha blin arna i unwaith ar ôl cael fy nghneifio. Yn anffodus, mae fy mherchennog bob amser yn barod gyda'i chamera, fel yr hen *paparazzi* 'na, ac fe dynnodd lun ohono i â golwg blin arna i!! Ac mae'r llun hwnnw wedi'i rannu i bobman, a hyd yn oed wedi'i ddefnyddio i neud mygiau, sticeri, matiau llygoden a chardiau doniol. Dydy hyn ddim yn deg iawn, yn fy marn i, gan fy mod i erioed wedi edrych fel 'na cyn hynny nac wedyn! Ond dyna ni – mae 'nwyddau Dougal' yn bod!! A dyna wers i ni i gyd – peidiwch byth â bod yn flin – gallai rhywun ddal yr eiliad honno am byth!



# Y Gymdeithas Hanes

Mwynhaodd aelodau Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan ddarlith hynod ddiddorol ym mis Mawrth gan Dr Paul Evans, Cyn-Bennaeth Ysgol Uwchradd Dinbych. Testun ei ddarlith oedd *'Cyn-ddisgyblion Ysgol Sir Dinbych adeg y Rhyfel Mawr 1914–18.* Soniodd Paul ei fod wedi darganfod nifer fawr o lythyrau mewn stordy a ysgrifennwyd gan gyn-ddisgyblion oedd yn ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf – wedi eu hysgrifennu o'r ffosydd, ysbytai, a gwersylloedd carchar. Anfonwyd y rhain mewn ymateb i ddisgyblion o'r ysgol yn ystod 1917 ac 1918 oedd wedi ysgrifennu at gyn-ddisgyblion, ac wedi anfon archeb bost o 4 swllt a 6 cheiniog hefyd o'r arian a godwyd yn yr ysgol! Yn anffodus ni chanfuwyd y llythyron a ysgrifennwyd gan y disgyblion at y milwyr.

Sefydlwyd Ysgol y Bechgyn Sir Ddinbych ym 1894 yn Stryd y Parc (roedd y merched yn mynd i Ysgol Brynhyfryd yn Rhuthun). Symudodd i Lôn Ganol ym 1903, gyda Mrs Thomas Gee yn torri'r dywarchen gyntaf â thrywel arian!

Yn y 1970au symudodd yr ysgol i safle presennol Ysgol Uwchradd Dinbych, gan gymryd nifer o eitemau o'r hen ysgol gyda hi – gan gynnwys plac yn rhestru'r 35 cyn-ddisgybl a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Tynnodd Dr Paul Evans sylw at y ffaith bod llawer o'r cyfenwau yn enwau teuluoedd yn Ninbych heddiw – Salusbury, Bellis, Knowles, Waters, Keepfer, Bartley, Hardy ynghyd â Davies, Jones, Thomas, Lloyd, Evans, Roberts a Skelton. Darllenwyd rhannau o nifer o'r llythyrau, a rhannwyd manylion cefndir teuluol i gyd-fynd â lluniau'r dynion a fu farw yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y dynion a fu farw rhwng 19 a 33 oed.

Roedd achosion marwolaethau yn amrywio, yn cynnwys un milwr a saethwyd gan saethwr cudd wrth gario swyddog ar



*Dr Paul Evans gyda swyddogion y gymdeithas, Julia Hughes a Catherine Howarth*

stretshar, marwolaeth ddamweiniol wrth hyfforddi milwyr, achos angheuol o ffliw Sbaen a niwmonia, ond lladdwyd y mwyafrif mewn brwydrau. Lladdwyd un dyn o Fodfari, oedd yng Nghorff Meddygol Byddin Canada, pan suddwyd y llong ysbyty *HMHS Llandovery Castle*. Defnyddiwyd y llong hon ar y môr i drin clwyfedigion. Roedd y llong yn cario meddygon, nyrsys a chleifion o Halifax yng Nghanada i Lerpwl pan gafodd ei tharo gan dorpido oddi ar arfordir Iwerddon ar noson Mehefin 27, 1918 – wedi'i rhyng-gipio gan y llong danfor Almaenig U-86.

O'r 234 o feddygon, nyrsys, ac aelodau Corff Meddygol Byddin Canada – milwyr a morwyr, dim ond 24 o bobl (y rhai oedd mewn un bad achub) a oroesodd yr ymosodiad i adrodd hanes yr erchyllter a ddigwyddodd.

***O.N.*** Roedd un o'r 22 o ddynion a fu farw yn ystod y rhyfel ar fwrdd yr *HMHS Llandovery Castle* gyda chysylltiad â Llandyrnog/Llangwyfan. Gellir dod o hyd i'w stori, ynghyd â straeon y lleill, yn y llyfr a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas – *Y Rhyfel Mawr 1914-18 The Great War*, sydd ar werth yn Siop Gymunedol Llandyrnog neu Tŷ Ceffyl Bach, Llandyrnog am £14, neu anfonwch e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com.

# Dod i adnabod . . . Gwilym Evans

**Ryden ni i gyd yn gwybod mai brodor o bentre Llandyrnog wyt ti, ond o le roedd dad a mam yn wreiddiol, felly ?**



Ia, cychwynnais fywyd yn Vron Yw yn fab i Thomas a Dorothy Evans, gyda fy mrodyr a'm chwaer sef Trefor, Hywel, Esmor, John, Ann a Glyn. Roedd fy nhad wedi cychwyn yn Gellifor a mam o'r Bwlch, Bodfari.

Roedd fy nhad wedi ei hyfforddi fel garddwr yn Mhlas Draw, Llangynhafal ers yn hogyn ifanc ac wedi bod am gyfnod gyda Dicksons Nurseries yn ochrau Caer cyn dychwelyd yn ôl i'w ardal. Roedd Mam wedi ei hyfforddi mewn gwaith pwytho a choginio tra'n gweithio yn Bwlch Martyn heb fod nepell o gartref.

Wedi priodi a byw yn ardal Gellifor am gyfnod, dyma fy nhad yn cael swydd yn y Sanatorium fel garddwr ac yna'n ben garddwr.

Yn 1955, wedi i'n nhad fod gyda salwch am bron i ddwy flynedd, bu i'r teulu symud i fyw i Maes Clwyd a finnau'n 13 oed.

**Ble gefaist ti dy addysg?**

Ysgol Llandyrnog ac yna Ysgol Caledfryn yn Ninbych. Byddem yn cerdded ym mhob tywydd i groesffordd Rhiwbebyll, ac yn cael bws i'r pentref am un geiniog neu cael tocyn arbennig i fynd i'r ysgol uwchradd.

Cofio cael tân yn nhalcen yr ysgol gynradd a pawb yn cael eu hebrwng allan i Gae Nant hyd nes y byddai'r gwasanaeth tân wedi dod i'w ddiffodd. Hwyl fawr ar y pryd! Mwynheais fy mlynyddoedd ysgol er nad oeddwn yn scolar.

**Ac ar ôl gadael ysgol?**

A finnau'n 15 oed, amser 'madel ysgol a chwilio am waith, roeddwn â'm bryd ar fynd yn drydanwr ers peth amser. A felly, ceisio am swydd ac yn ffodus cael cyfle i ymuno gyda chwmni Evan Jones Dinbych. Cyflog o £1.50 ac oriau 9 tan 6 i ddechrau. Disgwylid imi helpu yn y siop, a darfod am 6.30 nos Fercher!! (nos Sadwrn bach i rai) a 7 ar nos Sadwrn – hyn oherwydd bod pobol o'r ardaloedd gwledig yn dod a batris radio (*accumulators*) i'w chargio ar y nosweithiau yna!

Tra'n y siop, cawn gyfle i drwsio offer trydanol bach ac hefyd cawn ambell i ddiwrnod allan gyda'r dynion yn gosod erials teledu. Un diwrnod yn Llanelwy, ar adeilad uchel, a hithau dipyn yn wyntog, cefais orchymyn i ddal yr ysgol tra roedd y dynion ar y to yn gwneud y gwaith. Ond yn anffodus, daeth Morus y Gwynt a chipio'r ysgol i'r llawr a'm gadael i gydag argyfwng. Lwc bod plismon yn mynd heibio ar droed – daeth i'm helpu allan o'r broblem!

Roedd cwmni Jones yn gyfrifol am osod system rhannu signal teledu yn ardal Penmachno drwy osod un erial fawr ar fryn uwchben y pentref, a'i ddosbarthu gyda wifrau o amgylch. Yn anffodus, un bore wedi i ni ddechrau ar y gwaith fe'm taflwyd i'r llawr gan sioc drydanol. Bu dipyn o bryder am y sefyllfa ond yn fuan daethpwyd at wraidd y broblem – ond rwyf dal yma i dweud y stori!!

Wedi bod gyda'r cwmni am dipyn, gofynnais am gael symud i'r adran gyda'r trydanwyr ac yna cefais fynd i'r coleg yn Bae Colwyn a Wrecsam a llwyddo i gael teilyngdod mewn gwaith yn y maes trydanol.

Yn ystod cyfnod y pumdegau roedd cael trydan yn newydd i'r ardaloedd gwledig ac felly, buom yn weirio llawer o dai a ffermydd yn ardaloedd Cerrigydrudion, Bontuchel a Chyffylliog.

# Dod i adnabod . . . Gwilym Evans: parhad

Wedi rhai blynyddoedd hapus gyda'r cwmni a chwmnïaeth gyfeillgar cyd-weithwyr, mi ges gynnig swydd yn ffatri laeth Llandyrnog. Gan fod hyn yn mynd â mi i gael profiad mewn gwaith diwydiannol, derbyniais y swydd a bûm yno am nifer o flynyddoedd.

**Beth oedd y cam nesa'?**

Yn 1968, penderfynais sefydlu cwmni G C EVANS *electrical contractor*. Gyda chefnogaeth llawer o gyfeillion a chwmnïau adeiladu, roedd sicrhâd o waith am gyfnod, ond gyda gwaith yn prysuro, rhaid oedd cael cymorth, a bu nifer yn gweithio i mi.

Trwy law nifer o'r adeiladwyr a phenseiri, cefais gyfle i weithio ar nifer o brosiectau diddorol ar stad ddiwydiannol Colomendy – fel safle Bara Henllan, a stordy a swyddfa Mars Jones.

Bûm yn gweithio mewn nifer fawr o gapeli, eglwysi, rheithordai, ffermydd, plastai a thai preifat. Hefyd gwneud llawer o waith i'r Bwrdd Dŵr yn yr Alwen ac Adran Goedwigaeth Clocaenog.

Yn y cyfnod yma, rhaid oedd defnyddio ysgolion bach a mawr ac offer llaw i lawer o'r gwaith, cyn bod sôn am reolau diogelwch ac offer modern. Dau o adeiladau gyda sialens oedd Eglwys Sant Tyrnog a'r pig uchel i'r to, a Chapel y Dyffryn, oherwydd ehangder ei nenfwd. Un o'r problemau nad oeddwn yn ei hoffi oedd gweithio mewn nenfwd gydag ystlumod yn hedfan o amgylch!

**Ac wedyn, newid cyfeiriad?**

Yn mis Mai 2004, penderfynu rhoi gorau i'r gwaith trydanol. Gan fod gennyf ddiddordeb mewn llywodraeth leol ac wedi gwasanaethu ar y Cyngor Cymuned ers 1974, ymgeisiais am sedd ar Gyngor Sir Ddinbych – ardal Llandyrnog, Llanynys ac Aberchwiler. Gyda chefnogaeth diflino Glenys bu i ni baratoi yn drwyadl ar gyfer yr etholiad. Paratoi posteri a thaflenni a galw yn mhob tŷ yn yr etholaeth bron iawn a llwyddo i gael digon o bleidleisiau.

Disgwylir i gynghorydd gadw cysylltiad â'r gymuned a chefais groeso a chydweithrediad gan y tair cymuned o fewn y ward ac roeddwn yn hynod ddiolchgar iddynt am hynny. Buom ar y cyd yn llwyddiannus gydag amryw o brosiectau a gwelliannau yn yr ardaloedd.

**Pam mae dy filltir sgwâr mor bwysig i ti?**

Un o'r pethau pwysig i mi ydi gweithio a chefnogi fy mhentre ac ardal, ac felly, rydw i wedi cefnogi mudiadau lleol: Neuadd y Pentre, Eisteddfod Llandyrnog, Ysgol Bryn Clwyd – fel rhiant ac fel un o'r rheolwyr, ac wedi rhedeg y Tuesday Club gyda Glenys am nifer o flynyddoedd. Bûm yn cydredeg St Johns am gyfnod ac roeddwn hefyd ar bwyllgor Clwb Ieuenctid Llandyrnog.

**Oes gennyt ti amser i ymlacio?**

Rwy'n hoffi ymlacio drwy gadw'r ardd yn daclus ac yn lliwgar ac wedi cael llwyddiant a lwc gydag ambell i beth yn Sioe Llandyrnog. Rydw i wrth fy modd yn cael torri glaswellt ar y *ride-on mower*.

Mae'r Capel yn golygu llawer imi. Yn ystod y blynyddoedd bûm yn athro Ysgol Sul ac hefyd yn cydweithio gydag eraill mewn cyfarfodydd plant. Rydw i wedi bod yn flaenor ers rhai blynyddoedd.

Pan yn blant cerddem o Vron Yw i'r Ysgol Sul a chyfarfodydd plant yn ystod yr wythnos. Yno y cefais y cyfle i gymryd rhan yn y cyfarfodydd cystadleuol a gwasanaethau plant a ieuenctid – a hynny wedi rhoi ychydig o hyder i mi siarad yn gyhoeddus a thrwy hyn gwneud gwaith yn y gymuned.

Rhaid ydi diolch i'r Capel a chymdogaeth ardal Llandyrnog am bob cefnogaeth trwy gyfnodau anodd.

# Llan Llanast

Yn ein sesiwn ym mis Ebrill clywsom stori'r Mab Afradlon, a adawodd ei gartref i chwilio am anturiaethau. Ar ôl gwario ei holl etifeddiaeth, cafodd swydd yn gweithio efo moch, ac roedd rhaid iddo fwyta eu bwyd nhw gan ei fod mor newynog. Yn y diwedd aeth adref a gofyn i'w dad faddau iddo, a chafodd groeso cynnes, cariadus.

Gwnaethom lawer o weithgareddau yn ymwneud â moch – cwt mochyn mawr iawn a chwt i foch bach wedi eu gwneud allan o fisgedi! Hefyd cylchau goriadau mochyn, a baneri ar gyfer y parti i groesawu'r mab coll adref. Mwynhawyd y cacennau bach moch gyda'n te!



Bydd ein sesiwn nesaf ar 10fed Mai am 3.30pm yn Neuadd y Pentref, ac mae croeso i bawb.

# Gild Trefoil

Gwrandawodd aelodau'r Gild Trefoil ar Nia Williams yn siarad am Brosiect Olio. Aethon nhw adre â phob math o fwyd dros ben a gasglwyd o archfarchnadoedd. Mae Nia yn casglu'r bwyd ac yn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n dda. Daeth Mary Steel i ddangos yr Arian Cablyd a dderbyniodd gan y Brenin yng Nghadeirlan Llanelwy. Yna mwynhawyd te a chacennau a raffl.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn Nhŷ Clwyd, Llanfair TH, Canolfan Awyr Agored Geidiaid Clwyd, i weld yr ardd flodau gwyllt a'r pwll newydd – a phicnic wrth gwrs!

# Gair gan yr offeiriad

Wrth i ni nesáu at ganol haf a'r dyddiau hirfelyn tesog o gael mwynhau 'chydig o orffwys ac ymlacio, gadewch iddo hefyd fod yn amser i ofalu amdanom ein hunain. Gadewch inni roi o'r neilltu'r syniad cyfeiliornus o hamdden – y dylem wneud rhywbeth drwy'r amser, ac nad ydi hi'n dderbyniol i gymryd amser o bryd i'w gilydd i "aros a syllu" a meddwl am ein hiechyd.

Yr haf hwn, ceisiwch fod yn garedig atoch eich hun a byw bywyd cytbwys. Cymerwch amser i lonyddu, i edrych o'ch cwmpas ar liwiau, synau ac arogleuon hyfryd y tymor, a gadewch i'ch calonnau gael eu llenwi â rhyfeddod creadigaeth ein Duw hollalluog, graslon a chariadus. Cymerwch amser mewn myfyrdod tawel i dderbyn dyfnder ei gariad tuag atoch, gan ganiatáu i'w gariad eich iacháu, eich trawsnewid, a'ch arwain at y bywyd helaeth y mae ef wedi ei ddymuno erioed i'w roi. Mae'r Beibl yn ein cymharu â gwinllan sydd angen ei thocio a'i dyfrhau er mwyn tyfu'n iach a dwyn ffrwyth. *(Byddi fel gardd wedi'i dyfrio, neu ffynnon ddŵr sydd byth yn sychu. Eseia 58:11).*

Boed i hwn fod yn amser i adnewyddu ein hunain a'n perthynas gyda theulu a ffrindiau, gyda natur, a hefyd gyda'n Creawdwr. Gadewch inni: '*Ymlonyddu a deall mai Duw ydw i' (Salm 46:10)*. Yn yr ardal hardd lle'r ydym ni'n byw, mae digon o leoedd i ymlonyddu a mwynhau mawredd Duw a rhyfeddodau'r greadigaeth, gan wybod ei fod gyda ni ac o'n cwmpas ym mhob man. Mwynhewch yr haf, a boed i chi deimlo eich bod wedi'ch adnewyddu a'ch atgyfnerthu.

*Y Barch. Ganon Juliet Fraser*

**Bore coffi tuag at y Clwb Garddio**

**Dydd Sadwrn, 16 Mai 10.00-11.30**
**yn Neuadd y Pentre**

**Croeso cynnes i bawb**

# Y Clwb Garddio

Eglurodd Phil o *Smithy Farm*, Pentrefelin, sut y dechreuodd ei ddiddordeb mewn tyfu llysiau organig wrth iddo fwydo ei deulu. Yn fuan iawn, roedd yn cynhyrchu mwy o lysiau na'r angen, ac felly, aeth ati i werthu rhai ym Marchnad Ffermwyr Saughall. Ers hynny, mae'r busnes wedi mynd o nerth i nerth. Mae symud i Bentrefelin wedi rhoi mwy o le iddo dyfu llysiau.

Eglurodd Phil hefyd beth oedd y dull garddio 'Dim Palu'. Mae hwn yn rhoi pwyslais ar iechyd y pridd drwy osgoi troi'r pridd a defnyddio compost ar yr wyneb – mae garddwyr yn gallu tyfu mwy o fwyd efo llai o ymdrech. Mae Phil wedi addasu'r dulliau hyn i siwtio ei ffordd ei hun o weithio, gan gynhyrchu amrywiaeth o lysiau organig blasus. Pam na alwch chi heibio siop fferm Pentrefelin? Mae'n stocio holl lysiau Phil, yn ogystal â chynnyrch llaeth o fuches Red Poll Huw Foulkes.

Yn dilyn y sgwrs, cafodd bawb gyfle i fwynhau byns sinamon blasus Pentrefelin a phaned o de.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 12 Mai am 7yh yn ystafell isaf Neuadd y Pentre', gyda Josef Vass o'r *Micro Garden Project* yn Ninbych. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r clwb, mae croeso cynnes i chi ddod draw, neu cysylltwch drwy e-bost: LlandyrnogGardeners@outlook.com.



# Undeb y Mamau



Roedd ein cyfarfod ym mis Ebrill yn bleser pur. Roeddem yn falch iawn o groesawu'n ôl Doro Roberts o Nantglyn, a siaradodd am ei gardd a chreu tri threfniant blodau hardd gan ddefnyddio amrywiaeth o flodau a gwyrddni o'i gardd ei hun. Fel arfer, llwyddodd Doro i'n difyrru gyda'i straeon a'i sylwadau ar fywyd! Rhoddodd y tri threfniant i'r raffl, ac roedd tri enillydd lwcus iawn yn gallu mynd â nhw adref i'w mwynhau.

Bydd ein cyfarfod nesaf ddydd Mercher 13eg Mai am 2pm yn yr Ystafelloedd Coco, lle byddwn yn clywed am Ganolfan Gynnes Henllan. Mae croeso i bawb ymuno â ni.


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Ysgol Bryn Clwyd

Er mai dim ond cwta bythefnos sydd ers i ni fod nôl yn yr ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg, mae llawer wedi digwydd. Mae Ceidwaid Chwarae Sir Ddinbych wedi dechrau sesiynau wythnosol gyda'r plant. Mae'r sesiynau hyn wedi'u cynllunio i ddatblygu chwarae cydweithredol yn llawn dychymyg, ac maen nhw wedi bod yn llawn hwyl. Mae Dosbarth Hedfan wedi bod yn dylunio a chreu gemau sy'n defnyddio magnetau i'w gwneud i weithio.



Mae'r disgyblion meithrin yn Nosbarth Tyfu wedi dangos faint maen nhw wedi tyfu gyda gwaith rhif rhyfeddol.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer  
Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101  
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068  
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)  
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345



Cyfarfu ein cyngor Eco ysgol â'r cyngor cymuned i blannu blodau yn y parc, yn barod ar gyfer agor yr ardal chwarae newydd.

**Bydd Tŷ Ceffyl Bach yn dathlu ei ail ben blwydd ddydd Sadwrn, 2 Mai, o 11 y bore tan 4 y pnawn. Dewch i'r siop anrhegion unigryw a chael parti wrth i chi siopa, gyda prosecco a siocledi.**


**DBP** Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7  
Colomendy Industrial Estate  
Denbigh LL16 5TA  
01745 818849  
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**  
**Sat 9 am—12 pm**

# Diwrnod chwerthin y byd

Beth sy'n digwydd fis Mai, meddech chi? Wel, mi wnes i Gwglo ychydig ac edrychwch beth ges i! Dydd Sul, 3ydd Mai, credwch neu beidio, ydi ***'Diwrnod Chwerthin y Byd'***.
Mi gafodd y diwrnod ei ddynodi 'nôl yn 1998 gan Dr Madan Kataria, sylfaenydd y Mudiad Ioga Chwerthin. Pam meddech chi? Er mwyn i bawb fod yn ymwybodol bod chwerthin yn gwneud lles i ni'n gorfforol a meddyliol, ac yn dod â phobl ynghyd drwy ymarferion chwerthin, a chael.

**Manteision corfforol**

Lleihau straen: mae chwerthin yn gostwng cortisol ac adrenalin ac yn sbarduno rhyddhau endorffinau

Iechyd y galon: mae'n rhoi ymarfer bach i'r galon drwy gynyddu curiad y galon a llif y gwaed, ac yna'n helpu'r cyhyrau a'r rhydwelïau i ymlacio

Lleihau poen: mae endorffinau'n lladdwyr poen naturiol ac yn codi trothwy poen

Llosgi calorïau: gall 10–15 munud o chwerthin losgi tua 40 calori, drwy weithio'r diaffram a chyhyrau'r bol.

**Manteision meddyliol**

Codi hwyliau: mae'n rhyddhau dopamin a serotonin sy'n helpu i leddfu pryder ac iselder ysgafn

Rhyddhau tensiwn: mae'n torri cylchoedd o feddyliau negyddol a lleddfu straen.

**Manteision cymdeithasol**

Bondio: mae chwerthin yn cryfhau ein perthynas â'n gilydd ac yn adeiladu ymddiriedaeth yn gyflym – mae'n cael gwaed â rhwystrau

Lliniaru gwrthdaro: mae'n ysgafnhau eiliadau o dyndra ac yn gwneud sgyrsiau anodd yn haws

Iawn, dyna'r manteision – y darnau diflas fel petai. Ydi, maen nhw'n deud mai chwerthin yw'r feddyginiaeth orau, ond cofiwch ei fod o'n beth personol iawn. Dydy pawb ddim o reidrwydd yn mwynhau jôcs – efallai mai rhywbeth i wneud efo'ch oedran chi ydi o, achos mae'n siŵr eich bod wedi clywed y rhan fwyaf o'r jôcs o'r blaen.

Ond mae rhai pobl yn naturiol ddoniol. Mae'r wyneb yn ddigon weithiau i wneud i chi ddechrau chwerthin lond eich bol – jyst meddyliwch am Tommy Cooper.

Yn bersonol, mae Max Boyce yn gwneud i mi chwerthin nes bod dagrau'n llifo, gyda'i eiriau syml ond craff. Mae ei amseru'n berffaith. Yn ôl Max yn y *Ballad to Morgan the Moon*, roedd Mock wedi glanio ar ochr dywyll y lleuad ymhell cyn i Artemis II hofran uwch ein pennau. Tybed welson nhw Mock?

*'Old Mock the Mechanic*
*I remember him well.*
*He once built a rocket,*
*Or so they will tell,*
*With an old winding engine*
*He found on the dole.*
*It was built in the Rhondda*
*And powered by coal.'*

Unwaith, mewn Clwb Rygbi, stafell wisgo Max oedd cegin oerllyd. Cafodd ddewis i ddefnyddio'r cwcer i gynhesu'r stafell, "ac os wyt ti'n oer iawn, rho'r gril 'mlaen"!!

A phwy all anghofio '*Dad's Army*' a'r hen Breifat Frazer, yr ymgymerwr '*We're doomed*". A beth am Is-Gorpral Jonesey – "*Don't panic", a* Chapten Mainwaring efo'i *"Don't tell them your name, Pike".*

Mae'r hyn sy'n gwneud i ni chwerthin yn beth personol iawn, ond mae'n wir ein bod ni i gyd yn teimlo'n well ar ôl chwerthin yn harti!

*Bryn Davies*

# Plannu mewn tyllau



Gobeithio eich bod chi wedi sylweddoli mai stori ffŵl Ebrill oedd yr un am blannu blodau mewn tyllau yn y ffordd?!

# Y Cyngor Cymuned

⇒ Nid oedd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) yn bresennol, ond roedd wedi bod yn monitro'n anffurfiol gyflymder traffig yn dod i mewn i'r pentref ac wedi ymweld â'r siop i sgwrsio â phreswylwyr.

⇒ Roedd y cyngor cymuned wedi gofyn am osod stribedi monitro cyflymder dros dro mewn mannau lle gwelwyd ceir o bosibl yn goryrru, ond hyd yma nid oedd ymateb wedi'i dderbyn.

⇒ Materion parcio – roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi dosbarthu llythyrau i nifer o dai yn y pentref, yn tanlinellu sut roedd parcio anghyfrifol yn achosi rhwystrau i fysiau a cherbydau argyfwng. Os na fydd y sefyllfa'n gwella ar ôl y cyfnod monitro, yna bydd rhaid ystyried defnyddio dull mwy ffurfiol o orfodi rheolau parcio.

⇒ Roedd pecyn plannu blodau gwyllt Cadwch Gymru'n Daclus wedi'i blannu yng Nghae Nant – diolch i Ysgol Bryn Clwyd.

⇒ Mae'r Cynghorydd Borthwick wedi cynnig ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned – penderfynwyd bwrw ymlaen i geisio caniatâd Cyngor Sir Ddinbych i gyfethol aelod newydd.

⇒ Roedd hi'n braf gweld bod yr offer ychwanegol wedi'i osod yng Nghae Nant, a phenderfynwyd bwrw ymlaen i osod ffens o amgylch yr ardal chwarae. Gwnaed hyn yn bosibl diolch i rodd hael iawn gan MHC a chronfeydd wrth gefn y cyngor.

⇒ Adroddwyd y byddai'r prosiect Artist Preswyl yn cychwyn ym mis Mai – roedd llawer o waith wedi mynd i mewn i weithredu prosiect hwn, ac mae pawb yn gwerthfawrogi hynny'n fawr iawn ac yn disgwyl yn eiddgar amdano.

*Argraffwyd gan Mike Neuman*
*www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*

# Grŵp Cyfeillgarwch

Nos Fawrth 7 Ebrill cawsom sgwrs ddifyr ac addysgiadol iawn am arddio gan Graham Pickles, yn enwedig am Achub Draenogod. Dydd Mawrth 14 Ebrill buom yn ymweld â Chai Dai, Dinbych. Buom i Langollen ar y 22 Ebrill. Ym mis Mai byddwn yn ymweld â Chonwy.



*Y merched yn Llangollen*

# Y Tuesday Club

Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Ebrill o'r Tuesday Club oedd Ian Wilson, ysgrifennydd cwmni siop Llandyrnog. Rhoddodd gefndir ein siop yn fras, ac erbyn hyn mae 30 o wirfoddolwyr yn gweithio ynddi. Mae'n cyflogi pedwar o bobl, un ohonyn nhw wedi'i chyflogi i ddarparu bwyd dros amser cinio .

Mae nifer o gynlluniau cyffrous i ddod, ac mae'n braf dweud bod y siop yn prysuro bob wythnos, a nifer y rhai sy'n defnyddio'r swyddfa bost wedi cynyddu'n aruthrol.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 20 Mai am 2 yn yr Ystafelloedd Coco.

## Bore coffi

**Bore Sadwrn, 30 Mai, 10.00–11.30**

**Yn neuadd y pentre**

**Yr elw at Feiciau Gwaed Cymru**

**Croeso cynnes i bawb!**